# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 26 MEHEFIN 2019 AM 10:30 A.M.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol) ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

M. Godfrey (Arweinydd Tîm – Iechyd yr Amgylchedd), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), A. Dallimore (Arweinydd Tîm – Adnewyddu Trefol a Chadwraeth), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb a'r Gymraeg), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol) a C. Evans (Pwyllgor Swyddog Gwasanaethau).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan gynghorwyr N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth) a P. Marsden (Addysg a Chyflawniad)

### 2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET – 12 MEHEFIN 2019

PENDERFYNWYD y caiff cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019 eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## MATERION LLE MAE ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. ASTUDIAETH DDICHONOLDEB ANSAWDD AER HAFODYRYNYS - TERFYNOL.

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 25 Mehefin 2019 yn manylu ar ganfyddiadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus ynghyd ag ystyried y Cynllun Terfynol (Atodiad 1 yr Adroddiad) a'r opsiwn a ffafrir ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol yn Hafodyrynys.

Nodwyd bod yr amcanion ansawdd aer cenedlaethol ar gyfer nitrogen deuocsid wedi cael eu torri mewn lleoliadau derbynyddion ar Heol Hafodyrynys. Mae'r monitor nitrogen deuocsid parhaus yn Hafodyrynys yn ffurfio rhan o Rwydwaith Trefol a Gwledig awtomatig DEFRA. Mae'r Rhwydwaith Trefol a Gwledig yn rhwydwaith o fonitorau parhaus ledled y DU sy'n llywio Model Hinsawdd Llygredd cenedlaethol, a ddefnyddir at ddibenion adrodd ar ansawdd aer i Ewrop, i ddangos cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) yn un o ddau awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cael eu hamlygu yn y Cynllun Nitrogen Deuocsid Cenedlaethol fel rhai sydd â lleoliadau sy'n methu cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol.

Ym mis Chwefror 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gyfarwyddyd Ansawdd Aer i CBSC i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr ardal a phenderfynu ar yr opsiwn neu'r ystod o opsiynau a ffafrir a fyddai'n sicrhau cydymffurfiaeth â therfyn ansawdd aer y Gyfarwyddeb ansawdd aer amgylchol gwerth am nitrogen deuocsid yn yr 'amser byrraf posibl'. Nododd y Cynllun Terfynol drafft y byddai dymchwel yr eiddo ar ochr ddeheuol yr A472 yn sicrhau cydymffurfiaeth yn yr amser byrraf posibl, erbyn 2023 (disgwylir mai 2022 y bydd erbyn hyn). Fodd bynnag, o dan y dull 'Gwneud y Lleiaf Posibl' mae modelu'n rhagweld cyflawni cydymffurfiaeth o ran ansawdd aer erbyn 2025.

Yn ei gyfarfod ar 27ain Mawrth 2019, mynegodd y Cabinet bryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai preswylwyr gael eu gwthio i galedi ariannol drwy unrhyw broses prynu gorfodol. Roedd gan y Cabinet bryderon cryf na fyddai preswylwyr yn gallu prynu unrhyw eiddo cyfatebol yn yr ardal leol, ac efallai y byddai'n rhaid i breswylwyr sydd wedi ymddeol gael morgais, neu efallai y byddai'n rhaid i berchenogion droi at lety ar rent. O ran lles ariannol trigolion yr ardal ac atal unrhyw galedi pellach a straen o ganlyniad i hynny, penderfynodd y Cabinet gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiwn 'Gwneud y Lleiaf Posibl' a'r Cynllun Terfynol drafft. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru wedyn y byddai'n sicrhau bod cyllid ar gael gan gynnwys y posibilrwydd o gymhwyso gwerth eiddo tebyg newydd yn hytrach na gwerth marchnad y tŷ sy'n cael ei ddymchwel. Roedd y Cynllun Terfynol drafft a'r opsiwn dewisol arfaethedig, sef 'Gwneud y Lleiaf Posibl', yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 4ydd Ebrill 2019 a’r 11eg Mehefin 2019. Nid oedd canlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn cefnogi'r opsiwn 'Gwneud y Lleiaf Posibl'.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod y Pwyllgor Craffu wedi cefnogi'r Cynllun Terfynol (sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1) a'r opsiwn dewisol arfaethedig o brynu (ar 150% o'r prisiad) a dymchwel yr eiddo ar ochr ddeheuol yr A472 yn Hafodyrynys er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth yn yr amser byrraf posibl ac fe'u hargymhellir i'r Cabinet i'w mabwysiadu. Nodwyd bod yn rhaid cyflwyno'r Cynllun Terfynol a'r opsiwn a ffafrir i Lywodraeth Cymru erbyn 30ain Mehefin 2019 fan hwyraf.

Esboniodd swyddogion y bydd yr Aelodau'n rhoi sylw i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb ac o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd yn ystod y broses, nodwyd y byddai budd cyffredinol o ganlyniad i leihau amlygiad i lygredd yn yr aer ac efallai y bydd pobl iau, pobl hŷn, neu'r rheini â chyflyrau anadlol sy'n bodoli eisoes yn gweld mwy fyth o fanteision. Fodd bynnag, roedd rhai effeithiau negyddol posibl wedi'u nodi ar gyfer rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig fel pobl hŷn a allai brofi mwy o galedi ariannol a phryder oherwydd gorfod symud cartref, pobl ifanc a all orfod newid ysgol neu gael pellteroedd teithio hwy, a meddianwyr unrhyw gartrefi sydd ag addasiadau ar gyfer pobl anabl. Byddai'r pecyn ariannol

sy'n cael ei gynnig yn lliniaru'r effeithiau hyn, ac ystyrir bod effaith gyffredinol y cynigion yn gadarnhaol.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi diwygiad yn yr adroddiad ar dudalen 73 lle dylid cofnodi Gwall Arwynebedd Sgwâr Cymedrig fel 4.3 μg/$m^3$, nid 3.9 μg/$m^3$. Fodd bynnag, sicrhawyd yr Aelodau nad yw'r diwygiad hwn yn cael unrhyw effaith ar y model.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion a'r trigolion am y gwaith arbennig a oedd yn cael ei wneud i gyrraedd y cynnig hwn ac roeddent yn arbennig o falch bod sylwadau i Lywodraeth Cymru wedi dwyn ffrwyth ac wedi arwain at glustnodi arian ychwanegol i atal trigolion rhag cael eu gadael mewn caledi ariannol, gan ddangos bod yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd, a gyda thrigolion yn flaenllaw yn y penderfyniadau.

Wrth nodi'r gwaith helaeth a wnaed, gofynnodd Aelod a oedd holl drigolion yr ardal yn fodlon â'r cynigion. Nodwyd bod mwyafrif y preswylwyr yn hapus; fodd bynnag, mae nifer fach o drigolion wedi dweud nad ydynt am adael. Rhoddwyd sicrwydd i'r Cabinet, fodd bynnag, y bydd y gwaith yn parhau gyda thrigolion gyda'r nod o ddod i gytundeb, heb ddefnyddio pwerau statudol.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y camau nesaf yn y broses. Esboniodd y swyddogion y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Banel o Arbenigwyr ym mis Gorffennaf, lle bydd swyddogion yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau, a dylid darparu ymateb gan Lywodraeth Cymru ganol mis Awst ar y camau y maent yn eu cefnogi. Fodd bynnag, yn ystod yr amser hwn, bydd y trafodaethau'n parhau gyda thrigolion sy'n ymwneud â gwerthiannau gwirfoddol a phwysleisiwyd bod terfynau amser llym iawn er mwyn cwblhau'r broses.

Holwyd a fyddai hyn yn cael effaith ar yr amserlen pe bai angen gweithredu gorchmynion prynu gorfodol (GPG). Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynghylch a allai eiddo gwag, nad yw'n cael ei ddymchwel, ddenu fandaliaeth ym mhorth dwyreiniol y fwrdeistref. Sicrhaodd swyddogion y Cabinet fod nifer o weithfeydd a phrosesau a all gydredeg â'r broses GPG, a all gymryd rhwng 6-12 mis, ac y gall barhau i'w datblygu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus ynghyd ag ystyried y Cynllun Terfynol (Atodiad 1) a'r opsiwn dewisol arfaethedig o brynu (ar 150% o'r prisiad) a dymchwel yr eiddo yn 1-20 Woodside Terrace, 1 a 2 Siopau Woodside a'r Adfa ar ochr ddeheuol yr A472 ynghyd ag ail-alinio'r llwybr troed ar gyfer cyflawni cydymffurfiad â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Amgylchol yn Hafodyrynys.

## 5. GRANTIAU ADFYWIO - YMGYNGHORIAD EHANGACH

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Cabinet yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd o'r cynlluniau grant refeniw a chyfalaf a weinyddir ar hyn o bryd gan Is-adran Adfywio'r Cyngor, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 27ain Chwefror 2019 yn nodi sut y gallai Cronfa Fenter Caerffili newydd weithredu i symleiddio'r broses o wneud cais am grant. Atodwyd yr Adroddiad Cabinet fel Atodiad 1 yr adroddiad.

Nodwyd, ar ôl ystyried yr adroddiad, cafodd swyddogion y dasg o gynnal ymgynghoriad mewn perthynas â'r newid arfaethedig a nodwyd gan Swyddogion yn yr adroddiad Cabinet gwreiddiol. Roedd yr adroddiad yn amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd, yn bennaf gyda'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol, dros gyfnod o wythnos o ymgynghori.

Er cyflawnder, roedd yr adroddiad hefyd yn crynhoi'r potensial i gyfuno'r pum rhaglen grant bresennol mewn un 'Cronfa Fenter Caerffili' gydag ailffocysu tuag at gynnig gwell cymorth i

fusnesau sy'n dechrau, ysgogi twf economaidd, llenwi'r gadwyn gyflenwi a nodwyd a chefnogi'r gwaith o greu swyddi.

Aeth adroddiad gerbron y Cabinet ar 27ain Chwefror 2019, yn rhoi manylion am sut y gallai cyfundrefn grantiau newydd ganolbwyntio'n fwy gweithredol ar ddatblygu twf busnesau a chreu cyfleoedd cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Roedd yr adroddiad yn amlinellu y dylai Cronfa Fenter Caerffili newydd (CFC) ganolbwyntio'n bennaf ar dwf economaidd.

Er y byddai'r drefn grantiau arfaethedig yn agored i grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol byddai'n ofynnol iddynt yn y dyfodol ddangos tystiolaeth o sut y mae eu prosiectau'n annog gweithgarwch economaidd. Gan fod yr adroddiad yn argymell terfynu'r Gronfa Adfywio Cymunedol er mwyn ariannu'r CFC, gofynnodd yr argymhellion i'r Cabinet ar 27ain Chwefror 2019 i'r Cabinet nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo ymarfer ymgynghori ehangach gyda'r grwpiau sector a chymunedol ar yr egwyddorion a nodir yn yr adroddiad.

Er mwyn cyrraedd cymaint o grwpiau â phosibl, gofynnwyd i'r Cabinet nodi ei bod yn briodol cynnal cyfres amrywiol o ymarferion ymgynghori gan gynnwys presenoldeb Swyddogion yn y Pwyllgor Cysylltiadau'r Sector Gwirfoddol ar 14eg Mawrth 2019, lle'r oedd y gronfa fenter arfaethedig yn cael ei hegluro a bod y Pwyllgor wedi rhoi adborth, sefydlwyd holiadur ar y we i ddarparu ymgynghoriad byr ar yr adolygiad o'r grantiau a oedd ar gael am 4 wythnos a gwahoddwyd dirprwyaeth o sefydliadau'r sector gwirfoddol i gwrdd â gyda swyddogion i leisio unrhyw bryderon am y cynigion. Cynhwyswyd yr holl adborth a dderbyniwyd o'r ymarferion ymgynghori yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Holodd yr Aelodau, wrth nodi bod cymhelliant yn y cynllun newydd i sefydliadau ddangos twf economaidd, a fyddai cymorth yn cael ei gynnig i fusnesau newydd nad oeddent yn gallu cynnig hyn. Esboniodd swyddogion fod system Canfod Grant ar gael a all nodi'r grantiau sydd ar gael a'u cyfeirio, a gall swyddogion o fewn Adfywio a Chynllunio a'r Uned Bolisi gynnig cymorth i unigolion o ran cwblhau ceisiadau a chyflwyno tystiolaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:

i) Nodi'r adborth i'r ymgynghoriad ar y cynigion a gyflwynwyd yn yr adroddiad gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 27ain Chwefror 2019;

ii) Cymeradwyo ar unwaith cyfuniad y grantiau presennol, sef y Grant Gwella Masnachol, y Grant Datblygu Busnes, y Grant Cychwyn Busnes a'r Gronfa Adfywio Cymunedol, er mwyn darparu Cronfa Fenter Caerffili newydd;

iii) Ail-alinio'r dyraniadau grant craidd presennol er mwyn darparu mwy o allbynnau economaidd o fewn y fwrdeistref sirol o dan Ymbarél Menter Caerffili;

iv) Terfynu'r Gronfa Adfywio Cymunedau bresennol;

v) Cytuno cais swyddogion yn gofyn i'r ffin ddaearyddol ar gyfer Cronfa Fuddion Cymunedol Oakdale yn cael ei chynyddu o 1.5 milltir i 2 filltir ond na ddylai fod ar gael y tu allan i'r fwrdeistref sirol;

vi) Cymeradwyo'r protocolau a amlinellir yn yr adroddiad Cabinet gwreiddiol ar gyfer penderfynu ar geisiadau am grant.

## 6. ADRODDIAD YNNI A CHARBON

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio ar 11eg Mehefin 2019 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag arbed ynni a lleihau carbon yn bennaf drwy'r Strategaeth Lleihau Carbon. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r angen am gynllun trosfwaol newydd a fydd yn helpu'r Cyngor i fodloni ei uchelgeisiau "Ynni Gwyrdd" wrth alinio'r awdurdod â dyheadau Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd (PRC) ar gyfer datgarboneiddio. Mae hefyd yn dangos sut y gall y Cyngor wneud gwelliannau radical drwy rai meysydd a phrosiectau cyfleoedd allweddol.

Yn gyntaf, rhoddodd yr adroddiad grynodeb o hanes cadarnhaol yr awdurdod drwy gyflwyno a gweithredu mesurau i leihau'r ynni a ddefnyddir a lleihau ei ôl troed carbon. Mae'n nodi'r manteision a ddaw o'r gwaith hwnnw ac yn amlinellu sut y caiff hyn ei wella ymhellach drwy archwilio asedau'r Cyngor a manteisio i'r eithaf arnynt. Mae cyfnod y Strategaeth Lleihau Carbon bresennol yn dod i ben yn 2019, felly mae angen datblygu strategaeth drosfwaol newydd ar gyfer y Cyngor. Rhan o'r broses hon fydd datblygu Cynllun Ynni sy'n nodi'r amcan trosfwaol o fod yn gyngor niwtral o ran carbon ac yn nodi nifer o brosiectau y gall y Cyngor eu datblygu yn y tymor byr, canolig a hir a fydd yn ein symud tuag at y nod trosfwaol hwn.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr adroddiad yn sail i nifer o brosiectau, fel y'u hamlinellwyd yn y model gweithredu newydd a gymeradwywyd yn ddiweddar ar gyfer y cyngor a #TîmCaerffili, gan roi cyfle unigryw i'r awdurdod fanteisio ar yr agenda ynni a chysylltu â phrosiectau yn y PRC, gan wneud gostyngiadau yn ariannol ac wrth ddatgarboneiddio.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y manteision i'r allbynnau economaidd a'r manteision lles a chyfeiriwyd y Cabinet at adrannau 5.19 i 5.28 o fewn yr adroddiad, gan amlinellu nifer o fanteision o ganlyniad i leihau ôl troed carbon y Cyngor.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r datblygiadau yn yr adroddiad ac yn arbennig y manteision helaeth i'r amgylchedd lleol. Yn ogystal, nodwyd bod cymhelliant dros newid o fewn yr awdurdod, ac er bod llymder a darbodaeth ariannol yn flaenoriaeth, mae manteision amgylcheddol newid hefyd yn brif flaenoriaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog:

i) Nodi cyfaint ac amrywiaeth y gwaith ar gadwraeth garbon sydd eisoes wedi'i ymgymryd ag ef fel yr amlinellir yn Atodiad 1: Nodi’r Adroddiad Cryno ar y mentrau hyd yn hyn;

ii) Nodi barn y Pwyllgor Craffu ynghylch nodau cyffredinol arfaethedig y Cynllun Ynni i'n gwneud ni'n Gyngor carbon niwtral, a'r prosiectau arfaethedig cysylltiedig a fydd yn helpu i gyflawni'r nod hwnnw;

iii) Ystyried y camau nesaf yn natblygiad y cynllun ynni a chynnig ystyriaeth Craffu ar ôl i ddrafft gael ei ddatblygu.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2017-2018 AC ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL AR STRATEGAETH YR IAITH GYMRAEG 2017-2022

I hysbysu'r aelodau a cheisio eu cymeradwyaeth ar y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2017-2018 yn erbyn pedwar maes penodol o waith yr Iaith Gymraeg, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad cau o'r 30 Mehefin 2019, fel sy'n ofynnol gan Safon 158 yr Iaith Gymraeg.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu diweddariad ar y Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2017-2022 ar gais y Cabinet.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithredu materion yr Iaith Gymraeg o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ac yn unol â Safon 158.

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer 2018-19 yn cwmpasu pedwar maes allweddol gofynnol; cwynion gan y cyhoedd, sgiliau iaith staff, darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a recriwtio i swyddi gwag.

Yn ogystal â'r uchod, mae Adroddiad Cynnydd Blynyddol hefyd ar Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022, yn unol â chais y Cabinet pan gafodd ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2017, sydd ynghlwm i'r adroddiad fel Atodiad 1.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad gan ofyn am ragor o wybodaeth am y tabl yn rhan 2.2 o'r adroddiad. Eglurodd swyddogion fod 4 cwyn ffurfiol wedi eu derbyn a 5 Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg ffurfiol. O'r 4 cwyn ffurfiol a dderbyniwyd, daeth 3 o'r rhain i fod yn Ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ymatebwyd i bob un o'r cwynion o fewn terfynau amser corfforaethol a chawsant eu cadarnhau. Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod cynnydd dramatig wedi bod yn nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg o gymharu â ffigyrau blynyddoedd blaenorol a chynnydd pellach yn nifer y staff sy'n cymryd rhan mewn dysgu Cymraeg. Yn olaf, nodwyd bod 632 o swyddi gwag wedi'u hysbysebu yn gyfan, a bod 6 ohonynt yn Gymraeg hanfodol, 1 lle'r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ac aseswyd bod y gweddill yn Gymraeg dymunol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad yw swyddi Prif Swyddogion a swyddi prentisiaid, nad ydynt yn cael eu rheoli gan Wasanaethau Pobl, wedi dilyn yr asesiad Iaith Gymraeg gorfodol. Codwyd hyn gyda Gwasanaethau Pobl gyda golwg ar ddefnyddio'r un broses recriwtio ar gyfer pob swydd yn y dyfodol ac felly'n cydymffurfio â Safon 136 yn llawn.

Holodd Aelod a oedd cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg ar gael i'r Aelodau hefyd. Esboniodd Swyddogion fod hyfforddiant ar gael i Aelodau a Swyddogion fel ei gilydd; bydd hyfforddiant pellach ar gyfer yr Iaith Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain ar gael yn fuan.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi'r gwaith sylweddol a wnaed flwyddyn ar ôl blwyddyn a'r cynnydd yn y nifer sy'n dilyn cyrsiau. Nodwyd hefyd bod cynnydd wedi bod yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau rheng flaen, gyda mwy o wasanaethau yn defnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid.

Yn olaf, rhoddodd y Swyddogion enghraifft i'r Cabinet o ychydig o'r gwaith a wnaed mewn partneriaeth â'r Fforwm Iaith Gymraeg er mwyn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, sef llyfryn i rieni o'r enw *Dod yn Ddwyieithog ym Mwrdeistref Sirol Caerffili*.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog:-

i) nodi cynnwys yr adroddiad;

ii) cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad blynyddol, fel cofnod o gynnydd tuag at, a chydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg perthnasol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:14 am.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod i'w gynnal ar y 10fed Gorffennaf 2019.

______________________

CADEIRYDD